**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**Cyfarfod Aml-leoliad – Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas/MS Teams**

**Dydd Gwener, 9 Mehefin 2023 am 10.00am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr |
|---|---|---|
| J P Curtice | P Downing | N Furlong |
| V A Holland | Y V Jardine | S Joy |
| P Lloyd | M W Locke | L V Walton |

**Swyddog/Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Craig Davies | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Richard Jenkins | Arweinydd Gweithredol - Tacsis |
| Yvonne Lewis | Arweinydd Tîm, Trwyddedu |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C L Philpott a B J Rowlands

---

## 4 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiant canlynol:

Y Cynghorydd P Lloyd - Personol - Cofnod Rhif 8 - Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Trwydded i Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat – TAAR. Gadawodd y Cynghorydd P Lloyd y cyfarfod cyn i'r eitem gael ei hystyried.

## 5 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 12 Mai ac 18 Mai 2023 yn gofnod cywir.

## 6 Bil Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Cymru): Ymateb i'r Ymgynghoriad - Papur Gwyn.

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm, Trwyddedu, adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn manylu ar Fil Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Cymru): Ymateb i'r Ymgynghoriad - Papur Gwyn.

**7 Gwahardd y Cyhoedd.**

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**8 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Trwydded i Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat – TAAR.**

Manylodd yr Arweinydd Gweithredol, Tacsis, ar y cefndir mewn perthynas â TAAR.

Esboniodd TAAR, yng nghwmni PW, cynrychiolydd cyfreithiol, y sefyllfa mewn perthynas â'r mater ac atebodd gwestiynau gan aelodau.

Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cyfreithiwr Cyswllt, darllenodd PW eirdaon a oedd yn cefnogi TAAR.

**Penderfynwyd:**

1) Dylid diddymu Trwydded i Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat TAAR.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Penderfynodd aelodau nad oedd TAAR yn berson addas a phriodol ac nad oeddent yn gallu gweld unrhyw resymau cyfiawnadwy i wyro oddi wrth yr arweiniad priodoldeb.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.47am

**Cadeirydd**